**Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?**

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio mewn partneriaeth i adfer y broses o wneud penderfyniadau ar fuddsoddi rhanbarthol yn ôl i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid yn rhan o ddull cydgysylltiedig o ddatblygu economaidd rhanbarthol ac yn ein galluogi i gydweithio â'n partneriaid yng Nghymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd a hybu cynhyrchiant a thwf.

Gan adeiladu ar ein gwaith gyda phartneriaid i greu Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer Cymru (2020), rydym am alinio ein blaenoriaethau ar gyfer twf economaidd ag anghenion ein dinasyddion a sicrhau y byddant yn cefnogi Cymru i ddatblygu fel y genedl hyderus a blaengar yr ydym yn ymdrechu'n barhaus i fod.

Rydym eisiau datblygu ein heconomi trwy adeiladu ar ein gallu cryf mewn ymchwil ac arloesi; sefydlu, cychwyn a datblygu busnesau; darparu seilwaith a sgiliau angenrheidiol ar draws y rhanbarthau; cyflymu ein trawsnewidiad i economi di-garbon; tra'n gwneud hynny mewn ffordd deg a chynhwysol. Yn ei dro, gallwn nawr sicrhau bod cyllid yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol a'i fod yn gweithio ochr yn ochr â buddsoddiadau eraill i gefnogi swyddi a thwf, gan gynnwys Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf, ac Ardaloedd Buddsoddi.

Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig bod dyfodol buddsoddiad rhanbarthol yn hybu cynhyrchiant ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol ledled Cymru, gyda phedwar maes blaenoriaeth eang o ran buddsoddi yn cwmpasu:

- **Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**
- **Cefnogi pobl i waith a chynyddu eu sgiliau**
- **Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni**
- **Seilwaith lleol sy'n gyrru economïau rhanbarthol**

Mae'r gwaith cychwynnol ar ddamcaniaeth newid (Atodiad B) yn tynnu sylw at faterion a chyfleoedd penodol yng Nghymru a allai ddarparu ffocws ar gyfer ymyrryd i gyflawni’r blaenoriaethau. Bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach gyda phartneriaid ac yn cael ei lywio gan yr ymgynghoriad hwn. Byddwn yn cysylltu'r dystiolaeth o angen a chyfle â'r canlyniadau yr ydym eu heisiau a'r dulliau a all helpu i'w cyflawni.

Mae buddsoddi rhanbarthol wedi cael ei ddatganoli ac mae'r dirwedd ar gyfer buddsoddi cyllid ar ôl 2026 yn rhoi cyfleoedd newydd i ddysgu gwersi o'r gorffennol ac i wneud pethau mewn ffordd fwy strategol, cydgysylltiedig i sicrhau canlyniadau economaidd gwell a chyfleoedd gwell i bobl, busnesau a chymunedau Cymru. Yn dilyn ymgysylltiad helaeth, gan gynnwys gyda Llywodraeth y DU, llywodraeth leol, yr ymgynghoriad cyhoeddus uchod, Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (RIWSG) a Phartneriaid eraill yng Nghymru, rydym yn cynnig Cynllun Buddsoddi newydd ar gyfer cyllid twf lleol sydd â'n *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* yn ganolog iddo.

Mae ein gwaith gyda phartneriaid ers datblygu Fframwaith 2020 wedi pwysleisio'r angen am eglurder ynghylch y canlyniadau penodol sy'n cael eu ceisio gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar bob lefel gyflawni, gyda Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl gydlynu ganolog. Mae yna hefyd elfennau allweddol o drefniadau cyllido blaenorol sydd wedi bod yn fuddiol ac rydym am eu cadw ac adeiladu arnynt, yn seiliedig ar adborth gan ein rhanddeiliaid. Dyma'r canllawiau:

**Cynllunio a chydlynu buddsoddiadau yn y tymor hwy,** gyda mwy o ffocws ar gyflawni canlyniadau.

**Cydraddoldeb, hawliau dynol a diogelu'r amgylchedd, sydd wedi'u** hintegreiddio mewn ymyriadau dros y ddau ddegawd diwethaf, ac sy'n allweddol i ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a sector cyhoeddus ehangach Cymru.

**Alinio buddsoddiadau â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru** er mwyn sicrhau gwell cydweithrediad strategol a gwerth am arian.

**Gweithio ar y cyd ar draws y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol,** gan y bydd y partneriaethau a grëwn yn ein helpu i ddod o hyd i atebion gwirioneddol i heriau a rennir a sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn bartner gweithgar ac uchel ei barch yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Ein nod ar gyfer y Cynllun Buddsoddi hwn yw darparu buddsoddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u targedu'n well a fydd yn cyflawni newid gwirioneddol trwy nodi pwysigrwydd lle a phobl, ynghyd ag ymrwymiad i ddatganoli cyllid a chaniatáu gwneud penderfyniadau yn agosach at y bobl y mae'n anelu at fod o fudd iddynt.

Er bod yr ymrwymiad i ranbartholi yn rhan hanfodol o Dyfodol Cymru Llywodraeth Cymru: cynllun cenedlaethol 2040[1], bydd y cynllun ar gyfer rheoli, cydlynu a gwerthuso buddsoddiadau economaidd rhanbarthol ledled Cymru hefyd yn cyd-fynd â pholisïau eraill ar gyfer manteisio ar dwf a mynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys *Cenhadaeth Economaidd*[2] Llywodraeth Cymru, a pholisïau a rhaglenni[3] allweddol Llywodraeth Cymru i gefnogi ein heconomi a'n marchnad lafur.

Rydym yn rhagweld y bydd y dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau ein bod yn symleiddio ein prosesau gan ganiatáu defnydd mwy effeithiol o adnoddau a lleihau'r effeithiau negyddol sylweddol y gall anweithgarwch economaidd eu cael, megis lleihau'r gweithlu sydd ar gael, arafu twf economaidd a chynhyrchiant, effeithio'n negyddol ar les unigolion, a chynyddu pwysau ar gyllid cyhoeddus.

Mae ein dadansoddiad economaidd-gymdeithasol cryno (Atodiad A) yn rhoi trosolwg o dueddiadau hirdymor i dynnu sylw at heriau a chyfleoedd cyfredol economi a marchnad lafur Cymru. Ynghyd â'n gwaith gyda Llywodraeth y DU, CLILC ac Awdurdodau Lleol, mae'r dystiolaeth hon wedi ein cefnogi i gyrraedd y cynigion presennol yr ydym yn dymuno ymgynghori yn eu cylch. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cyfrannu at ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol llawn a bydd yn cyd-fynd â'n Cynllun Buddsoddi terfynol ar gyfer Cymru.

Fodd bynnag, cynhyrchiant Cymru yw'r isaf o blith gwledydd a rhanbarthau'r DU o hyd ac mae diffyg twf mewn cynhyrchiant yn dal yn broblem i bob rhan o'r DU. Rydym am ganolbwyntio ar ffactorau sy'n gysylltiedig â gwella cynhyrchiant, sy'n hanfodol ar gyfer gwella safonau byw a datblygu economi gynaliadwy sy'n tyfu lle gall dinasyddion Cymru ffynnu.

---

[1] Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040

[2] Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach [HTML] LLYW.CYMRU

[3] Er enghraifft, Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau: Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau LLYW.CYMRU; *Strategaeth Arloesi i Gymru:* Strategaeth arloesi i Gymru LLYW.CYMRU; *Gwaith Teg Cymru:* Canllaw i waith teg | LLYW.CYMRU a Gwaith Teg Cymru | LLYW.CYMRU; *Strategaeth Ryngwladol a Chynllun Cyflawni:* https://www.llyw.cymru/ymgysylltu-rhyngwladol-i-gymru-strategaeth-a-chynllun-cyflawni a Cynllun Cyflawni Rhyngwladol [HTML] LLYW.CYMRU;

**Adran 8. Casgliad**

Rydym wedi strwythuro ein Cynllun Buddsoddi o amgylch egwyddorion dylunio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ffyrdd o weithio yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid mewn ystod o sectorau ledled Cymru. Maent wedi'u hadeiladu ar y cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt ym mis Chwefror 2020. Mae gan ein meysydd blaenoriaeth buddsoddi ffocws cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael ei yrru gan fodel rhesymeg clir i sicrhau ein bod yn sicrhau gwerth am arian ac yn cyflawni'r effaith fwyaf i bobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru.

Mae'r Grŵp Llywio Buddsoddiad Rhanbarthol i Gymru [4], dan gadeiryddiaeth Carolyn Thomas AS, ac sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnes, llywodraeth leol, sefydliadau academaidd, undebau llafur, a'r trydydd sector, wedi cyfarfod dair gwaith ers mis Ebrill 2025 i gasglu sylfaen dystiolaeth, llywio rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid, a datblygu'r ymgynghoriad hwn.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd (OECD) sy'n amlwg yn rhyngwladol i gefnogi ein huchelgais parhaus ar gyfer meincnodi yn rhyngwladol ac i roi cyngor ar ddatblygu a llywodraethu rhanbarthol yn y dyfodol. Mae adroddiad OECD o 2024 *Regional Governance and Public Investment in Wales, United Kingdom: Moving Forward Together*[5] wedi llywio'r cynnig yr ydym wedi'i greu.

Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yr ydym wedi'i gynhyrchu (Atodiad A) yn nodi ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer buddsoddi ar gyfer pob un o'r pedwar maes blaenoriaeth buddsoddi a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

Mae ein pedwar maes blaenoriaeth wedi'u hanelu at ddarparu Cymru fwy ffyniannus, mwy cyfartal a gwyrddach fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn awyddus i rymuso rhanbarthau a chymunedau i ddatblygu eu portffolios eu hunain o gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'i gilydd er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau yn

---

[4] Cylch gorchwyl : Grŵp Llywio Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[5] oecd-multi-level-governance-review-moving-forward-together.pdf

unol ag anghenion a chryfderau’r rhanbarthau a’r cymunedau hynny. Mae'r amcanion strategol wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall cyllid twf lleol ei wneud at y nodau llesiant i Gymru.

Mae pwysigrwydd ac effaith drawsnewidiol arloesi, ymchwil, technolegau (gan gynnwys digidol), entrepreneuriaeth, a chydnabod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chynaliadwyedd i gyd yn themâu sy'n rhedeg trwy'r pedwar maes blaenoriaeth hyn. Mae'r blaenoriaethau yn ategu ei gilydd, er enghraifft, bydd sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl mewn gwaith o ansawdd da hefyd yn helpu busnesau i ffynnu. Mae’r rhain yn faterion cymhleth sy’n gofyn am amryw o atebion er mwyn eu datrys yn effeithiol, ac mae cyfleoedd enfawr sy’n gofyn am weithio ar y cyd ac yn integredig os ydym am fanteisio arnynt mewn byd ar ôl Covid.

- **Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol**

Gwyddom fod llawer o fusnesau yng Nghymru yn profi rhwystrau i dwf, sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu potensial llawn. Gall yr heriau amrywio o un busnes i’r llall, ond yn aml maent yn cynnwys cyflogi staff newydd, sgiliau arwain a rheoli, ehangu adeiladau, cael gafael ar gyllid neu gymorth arbenigol, neu allforio am y tro cyntaf. Un rhwystr penodol yw lle mae diffygion yn y farchnad o ran cael gafael ar gyllid ar gyfer twf busnes. Mae daearyddiaeth, demograffeg a strwythur busnes i gyd yn ffactorau sy'n ei gwneud yn anoddach i wasanaethu Cymru'n fasnachol. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyllid ad-daladwy yn darparu gwell gwerth am arian cyhoeddus drwy gynyddu'r posibilrwydd o ailgylchu manteision a chanlyniadau dros amser, gan ychwanegu effaith hirdymor[6].

Mae tystiolaeth wedi dangos bod gennym gryfderau gwirioneddol a/neu fantais gystadleuol mewn meysydd fel iechyd a bio-dechnoleg, gweithgynhyrchu uwch, technoleg ariannol, yr economi gylchol ac ynni carbon isel. Rydym am gynyddu ein capasiti a'n gallu ymchwil arbenigol a blaenoriaethu clystyrau i adeiladu ar alluoedd a chyfleoedd craidd Cymru.

Yn ogystal ag adeiladu ar y cryfderau yr ydym yn ymwybodol ohonynt, rydym am fod yn genedl arloesol a chefnogi datblygiadau newydd mewn deallusrwydd artiffisial (AI),

---

[6]Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru

data, a thrawsnewid digidol a all helpu i gyfrannu at enillion cynhyrchiant yn y dyfodol[7]. Rydym am i fuddsoddiad sbarduno twf cynhyrchiant drwy gefnogi'r amodau cywir i entrepreneuriaid, busnesau newydd a sefydledig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, i dyfu, datblygu i fod yn fwy cynhyrchiol, a chreu swyddi o safon uchel yng Nghymru a'u cadw yma[8].

- **Cefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu eu sgiliau**

Mae'r ffactorau y tu ôl i gyfraddau anweithgarwch economaidd yn gymhleth. Mae anweithgarwch economaidd yn fwy cyffredin ymysg grwpiau fel pobl anabl, pobl ifanc, oedolion hŷn, ac unigolion â chyrhaeddiad addysgol is.

Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl â sgiliau lefel uwch yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ac yn llai tebygol o fod mewn tlodi. Mae gan unigolion di-waith sy'n ennill cymwysterau Addysg Bellach islaw Lefel 2 fwy o debygolrwydd o fod mewn cyflogaeth barhaus, gyda mwy o enillion a chynnydd mewn cyflog yn enwedig i'r unigolion hynny o ardaloedd difreintiedig. Mae'r rheini sydd wedi gwneud prentisiaethau yn tueddu i fod yn fwy tebygol o fod mewn swydd, ac mae'n ymddangos bod prentisiaethau ar lefel uwch yn cynnig llawer mwy o fuddion i'r farchnad lafur. Mae tystiolaeth hefyd sy'n cysylltu mwy mewn gwaith a chyflog uwch gyda cymwysterau ar lefel uwch.

Mae diweithdra, tangyflogaeth ac anweithgarwch economaidd yn dal yn ffactorau arwyddocaol sy'n achosi anghydraddoldeb, gydag anabledd/salwch a gofalu am y teulu/cartref y prif resymau pam nad yw oedolion yng Nghymru yn gweithio. Mae tystiolaeth gref i ddangos bod cyfnodau o anweithgarwch economaidd a diweithdra yn gynnar yn eich bywyd yn gallu cael effaith niweidiol ar amrywiaeth o ganlyniadau yn nes ymlaen mewn bywyd.

Mae gweithlu Cymru'n crebachu, gan arwain at brinder staff, gan gynnwys mewn rhai sectorau lle rhagwelir y bydd y galw'n cynyddu, fel iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn effeithio ar ddosbarthiad incwm, cyfoeth a chyfleoedd a gall arwain at economi llai gwydn.

---

[7] *Cymru'n Arloesi:* Gweler y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn Cymru'n arloesi, creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflawni [HTML] | LLYW.CYMRU

[8] Mae'r Contract Economaidd gyda Busnes Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru, Cymru'n Gweithio, a Banc Datblygu Cymru yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu arweinyddiaeth glir a chymorth busnes. Y Contract Economaidd - Busnes Cymru

Bydd mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol yn hollbwysig i ddatblygu a sefydlogi'r economi ac i wneud y newidiadau hyn fesul cam, ac i sicrhau fod pobl yn gallu aros yn y gwaith a dod yn eu blaenau, bydd angen cefnogaeth ac anogaeth ar fusnesau i wneud gwaith yn well, yn decach ac yn fwy diogel. Bydd angen i bob ymyriad o dan y flaenoriaeth hon ddangos sut maent yn cyd-fynd â'r ecosystem sgiliau a chyflogadwyedd ehangach, yn enwedig sut maent yn mynd i'r afael â bwlch penodol neu'n gwneud rhywbeth arloesol i ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu'r ddarpariaeth honno.

- **Seilwaith gwyrdd ac effeithlonrwydd ynni**

Yr argyfwng hinsawdd yw her fyd-eang ein hoes. Mae'r risgiau yn real ac yn fwyaf i'n rhai mwyaf agored i niwed, ond yn ogystal â dod â chyfleoedd ar gyfer twf glân, swyddi o safon a manteision y farchnad fyd-eang, bydd y trawsnewidiad i economi ddi-garbon yn dod â manteision i'n hamgylchedd, ein hiechyd, ein haer a'n dŵr hefyd.

Mae Cymru eisoes yn y broses o bontio[9], yn lleihau lefel ei hallyriadau[10] ac yn datgloi cyfleoedd i ddatblygu economi lân. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y trosiant a gynhyrchwyd gan fusnesau sy'n weithgar yn yr economi "Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy" yng Nghymru yn £3.3 biliwn yn 2023[11]. Ar hyn o bryd mae Cymru'n cynhyrchu 55% o'i hynni fel ynni adnewyddadwy ac mae wedi gosod targed i ddiwallu 100% o'i hanghenion trydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035[12]. Mae Cymru hefyd yn cael ei hystyried yn arweinydd blaenllaw ym maes ymchwil a datblygu syniadau arloesol gwyrdd newydd. Daw allyriadau Cymru o bob math o ffynonellau, ond busnesau, tai, trafnidiaeth ac amaethyddiaeth sy'n eu hachosi'n bennaf.

---

[9] Mae Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025) | LLYW.CYMRU yn cynnwys polisïau a chynigion ar gyfer cyflawni'r gyllideb garbon a gosod y sylfeini ar gyfer datgarboneiddio yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net yn nodi camau gweithredu i nodi a darparu sgiliau i gefnogi sero net.

[10] Gweler Ffynonellau Allyriadau Cymru 2021

[11] Economi ynni carbon isel ac adnewyddadwy, y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[12] Nod Cymru yw diwallu 100% o'i hanghenion trydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035 | LLYW. CYMRU

Ein hymrwymiad drwy *Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040*[13], yw cynhyrchu o leiaf 70% o ddefnydd trydan Cymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2030, gydag 1 GW o drydan adnewyddadwy yn eiddo lleol erbyn 2030. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod Cymru'n cadw'r buddion a ddaw wrth bontio i system ynni lanach. Rydym hefyd am helpu cymunedau i gael eu pweru gan ynni sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol fel rhan o system ynni hyblyg a chlyfar. Bydd cadw cynhyrchu a'r manteision yn agosach at gymunedau yn helpu i sicrhau bod y trawsnewidiad i economi ddi-garbon yn arloesol, yn gymdeithasol gyfiawn, a bydd yn amddiffyn gweithwyr sydd fel arall mewn perygl o'r trawsnewid.

Mae angen i ni sicrhau bod y llwybr rydym yn ei ddilyn yn lleihau'r risgiau i'r rheini sydd eisoes dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a'n bod yn rheoli'r effaith ar ddiwydiannau yr effeithir arnynt. Rydym yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad a nodi cyfleoedd economaidd a all helpu i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae cysylltedd rhwng pobl, busnesau a marchnadoedd yn hanfodol i hyrwyddo clystyrau twf uchel, gan gyflawni manteision cydgrynhoi a chreu cyfnewidfa ar gyfer pobl a syniadau.

- **Seilwaith lleol sy'n gyrru economïau rhanbarthol**

Rydym yn gwybod bod llawer o gymunedau yn cael trafferth yn dilyn blynyddoedd o lymder, pandemig COVID-19 a degawdau o lobaleiddio. Mae canol trefi yn dioddef wrth i siopau gau, wrth i'r sector cyhoeddus grebachu ac yn sgil diffyg mewnfuddsoddi. Mae llawer o bobl yn dal i fethu â chael mynediad at wasanaethau digidol a gall amseroedd trafnidiaeth gyfyngu ar fynediad at ofal a thwf busnesau. Nid yw mynediad at gyfleoedd diwylliannol a'r dreftadaeth luosog yn y Gymru fodern wedi'i ddosbarthu'n gyfartal a rydym yn gweld anghydraddoldebau enfawr mewn canlyniadau iechyd sy'n cael eu gyrru gan anghydraddoldeb economaidd, gyda ffactorau fel anabledd a iechyd meddwl yn parhau i fod yn bwysau cyson ar ddangosyddion economaidd.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae cymunedau yng Nghymru yn gallu bod yn fywiog, yn greadigol ac yn gadarn. Gallent gynnig llawer o gyfalaf dynol, a gwelir nifer o enghreifftiau o bobl leol a'r trydydd sector yn ehangach – ar y cyd ag eraill yn aml iawn – yn arwain y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd, helpu'r rheini sydd mewn angen, trechu

[13] Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040

tlodi a chreu ffyniant. Rydym yn cydnabod, yn ogystal â mynd i’r afael â’r diffygion, ei bod yn hanfodol adeiladu ar asedau a manteisio ar gyfleoedd a all fod o fudd i gymuned, gan gynnwys cefnogi'r rhai sydd eisoes yn gwneud hynny. Rydym am rymuso cymunedau trefol, gwledig ac arfordirol i nodi a datblygu atebion i'r rhwystrau cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu hwynebu i ffyniant, gan lywio eu hardal leol i yrru cyfleoedd economaidd newydd.

Gyda'r dirywiad parhaus manwerthu, mae angen i ni ail-bwrpasu ein canol trefi o amgylch cartrefi, swyddfeydd, hamdden, gwasanaethau a gofod cymunedol. Drwy hyrwyddo gwell cysylltedd, gallwn leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a sicrhau bod dinasyddion yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Rydym yn awyddus i gryfhau canol trefi drwy greu a chryfhau’r seilwaith cymdeithasol sydd ei angen er mwyn i gymunedau weithredu a bodoli fel y dylent, gan gynnwys y diwydiannau creadigol, sy’n hollbwysig i hyrwyddo ymdeimlad cryf o le a phobl. I wneud hynny bydd angen defnyddio lleoedd cymunedol yn well, datblygu asedau cymunedol newydd – yn enwedig seilwaith gwyrdd – a chysylltedd sydd wedi’i integreiddio’n well.

Rydym am i bobl gael mynediad cyfartal at wasanaethau ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y bobl fwyaf agored i niwed. Rydym am wella mynediad at safleoedd diwylliant a threftadaeth er mwyn gwrthsefyll effeithiau a ddaw yn sgil teimlo’n ynysig, yn enwedig i bobl hŷn a phobl anabl. Rydym hefyd am gynnig cyfleoedd economaidd cynaliadwy i bobl ifanc, gan sicrhau bod dyfodol cadarnhaol yn bosibl iddynt yn eu hardaloedd lleol – waeth ble mae’r ardal na pha mor wledig yw hi – heb fod angen iddynt symud i ddinasoedd yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r meysydd buddsoddi â blaenoriaeth arfaethedig a amlinellir uchod wedi'u dewis oherwydd eu bod yn cyd-fynd â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* a *Chynllun Cenedlaethol Cymru 2040 ac maent wedi'u* cynllunio i wella cyfleoedd i bobl Cymru, drwy ddarparu cyllid parhaus i olynu *Cronfeydd Strwythurol yr UE* a'r *Gronfa Ffyniant a Rennir*.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein partneriaid a pharhau â'n hymgysylltiad â chymunedau a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cynllunio'r cynllun buddsoddi mwyaf perthnasol ac effeithiol posibl, gan feithrin ymdeimlad o berchnogaeth ac ymddiriedaeth i bobl, busnesau a chymunedau Cymru ffynnu.

Ein nod yw creu system fonitro a gwerthuso effeithiol fel rhan o'n dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o gyflawni polisïau a rhaglenni yn effeithiol. Mae angen i'n trefniadau ar gyfer cyllid twf lleol gynnal safonau uchel o bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, tra'n bod yn fwy cymesur ac wedi'u teilwra i ofynion Cymru.

Mae ein cynigion ar gyfer cyllid twf lleol yn cyflwyno cyfleoedd i elfennau sylweddol o weithgarwch monitro a gwerthuso ddigwydd ar lefelau rhanbarthol a lleol, yn ddibynnol ar sicrhau digon o allu a chapasiti yn y maes hwn.

Rydym yn cynnig datblygu system gydgysylltiedig, gydweithredol o weithgareddau monitro a gwerthuso ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Yma, byddai gan bob rhanbarth ei dîm monitro a gwerthuso ei hun sy'n penderfynu sut y dylid monitro a gwerthuso rhaglenni a byddai'n gyfrifol am sicrhau cyflawni'r gweithgaredd hwn. Byddai rhai swyddogaethau strategol yn cael eu cadw ar y lefel genedlaethol i helpu i osod a goruchwylio gofynion monitro a gwerthuso ar gyfer blaenoriaethau a rhaglenni cenedlaethol.

Byddai'r gweithgaredd ar lefel genedlaethol hefyd yn cynnwys adolygiadau thematig a meta-werthusiadau o'r holl weithgarwch monitro a gwerthuso a gynhelir ar draws pob lefel trwy adolygu, dadansoddi, tynnu at ei gilydd ac adrodd ar ganfyddiadau gwerthusiadau unigol. Er mwyn atal dyblygu ac annog cydweithredu, byddai'r rôl genedlaethol yn cynnwys rhywfaint o oruchwyliaeth a chydlynu gweithgareddau a gynlluniwyd i gysylltu strwythurau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Bydd cyflawni hyn yn gofyn am gyllid ac arbenigedd ar gyfer monitro a gwerthuso ar y lefel briodol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein dull presennol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei gynnal ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer mwy o ranbartholi.